Taflen Ffeithiau Cyllid Gofal Cymdeithasol 2 Ebrill 2026

# Talu am wasanaethau cartref a gofal dydd

## Cyflwyniad

Mae polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn unol â'r canllawiau a'r rheoliadau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn dweud wrthych am y ffioedd yr ydym yn codi am wasanaethau cartref a gofal dydd. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y taliadau, sut yr ydym yn cyfrifo'r costau y mae'n rhaid i chi eu talu a ble i fynd i gael cymorth a chyngor.

*Mae gwybodaeth am daliadau am lety mewn cartrefi gofal preswyl / nyrsio yn cael eu nodi mewn taflen ffeithiau ar wahân: Talu am ofal preswyl.*

## Beth yw gwasanaethau cartref a gofal dydd?

Fel arfer, mae'r rhain yn wasanaethau i bobl sydd angen cymorth ychwanegol tra'n byw yn eu cartrefi eu hunain. Er enghraifft, gallech fynychu canolfan ddydd neu efallai eich bod yn derbyn cymorth yn eich cartref gyda thasgau personol fel ymolchi a gwisgo.

## Pa wasanaethau sydd am ddim:

Mae rhai o'r gwasanaethau a ddarperir gan Wasanaethau Gofal Cymdeithasol a Thai Torfaen yn rhad ac am ddim - yn cynnwys asesu, gwybodaeth a chyngor.

## Beth yw'r ffi am wasanaethau cartref a gwasanaethau cymorth?

O 06 Ebrill 2026, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn codi,

- £26.11 yr awr am wasanaethau cymorth yn y cartref a gwasanaethau cymunedol
- £55.40 y dydd am weithgareddau dydd.

Y ffi uchaf y byddwn yn gofyn i chi ei dalu yw £100 yr wythnos waeth faint o oriau gofal y byddwch yn eu derbyn. Fodd bynnag, oherwydd yr ystyrir gallu'r person i dalu, efallai y bydd y swm gwirioneddol y bydd angen ei dalu yn is na £100, neu efallai na fydd unrhyw dâl o gwbl. Byddwn yn eich gwahodd i lenwi ffurflen asesiad ariannol er mwyn i ni gyfrifo faint sydd gennych i'w dalu.

**Prydau Bwyd**

Nid yw Gwasanaeth Prydau Cymunedol Torfaen i bobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain, a phrydau mewn gwasanaethau dydd sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor yn destun asesiad ariannol. Y tâl a godir am y prydau hyn yw £6.75.

**Gwasanaethau Llinell fywyd a Teleofal (Nid yw'r rhain yn destun yr Asesiad Ariannol).**

Mae gwasanaeth llinell fywyd a theleofal yn rhoi rhyddid i chi fyw yn annibynnol yn eich cartref eich hun, gan wybod y gallwch chi bob amser alw am gymorth 24 awr y dydd, pryd bynnag y byddwch ei angen. I gael rhagor o wybodaeth am y llinell fywyd neu'r gwasanaeth teleofal, cysylltwch â ni ar 01495 762200.

Os hoffech wneud cais am wasanaeth teleofal / llinell fywyd nid ydym yn codi tâl am y cyfarpar na'r monitro, ond bydd gofyn i chi dalu un ffi gosod o £65.00 a thâl gwasanaeth o £150.00, sy'n daladwy ymlaen llaw.

## Ydw i'n gymwys i dderbyn gwasanaethau cartref neu wasanaethau gofal dydd?

Er mwyn cael gwybod a ydych yn gymwys i gael gwasanaethau cartref neu ofal dydd, dylech gysylltu â ni ar 01495 762200 er mwyn trefnu asesiad o'ch anghenion. Bydd hyn yn cael ei wneud gan weithiwr cymdeithasol neu reolwr gofal.

Unwaith y caiff ei bennu bod angen gofal arnoch, bydd eich rheolwr gofal yn llunio cynllun gofal sy'n nodi pa wasanaethau cymorth y byddwch yn eu derbyn. Byddwn wedyn yn cyfrifo'r tâl ar gyfer yr holl wasanaethau perthnasol yn eich cynllun gofal.

## A oes rhaid i bawb dalu'r tâl?

Na – nid yw'r tâl yn berthnasol i:

- Wasanaethau a ddarperir i berson dan 18 oed.
- Gwasanaethau a ddarperir i berson sy'n destun Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983

*Noder – nid yw hon yn rhestr lawn.*

Os nad ydych wedi eich eithrio rhag talu'r costau, byddwn yn eich gwahodd i lenwi ffurflen asesiad ariannol. Mae'r ffurflen yn gofyn am wybodaeth am eich incwm, cyfalaf a gwariant. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i ganfod a oes rhaid i chi dalu unrhyw beth tuag at y costau hyn.

Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen, cysylltwch â ni ar 01495 766002 a byddwn yn trefnu i swyddog i'ch helpu i lenwi'r ffurflen.

Os byddwch yn dewis peidio â llenwi'r ffurflen asesiad ariannol, byddwch atebol i dalu'r uchafswm o £100 yr wythnos.

## A oes angen prawf o fy incwm a chyfalaf?

Oes – bydd angen i ni weld yr holl ddogfennau sy'n ymwneud â'ch manylion ariannol er mwyn cadarnhau bod y wybodaeth yn gywir.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu'r holl ddogfennau perthnasol, er enghraifft:

- Hawl i fudd-daliadau a dderbyniwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau e.e. Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth, Credyd Pensiwn neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.
- Sylwer - efallai y byddwn yn gallu cael y wybodaeth hon ar eich rhan gan yr Adran Gwaith a Phensiynau os byddwch yn rhoi caniatâd i ni wneud hynny.
- Pensiynau galwedigaethol / gwaith / pensiynau preifat / personol.
- Banc, cymdeithas adeiladu, paslyfrau cyfrif cynilo y swyddfa bost.
- Cyfriflenni banc diweddar.

Gallwch anfon llungopïau gyda'ch ffurflen. Fel arall, gallwn dderbyn gwybodaeth drwy e-bost. Os oes gennych chi neu eich cynrychiolydd ffôn clyfar neu dabled tynnwch lun y delweddau sydd eu hangen i gefnogi eich cais a'u he-bostio yn uniongyrchol i FinancialAssessments@torfaen.gov.uk

## Sut mae'r asesiad ariannol yn gweithio?

Mae taliadau yn seiliedig ar eich gallu i dalu, felly bydd y swm sydd angen i bob person ei dalu, yn wahanol.

I gyfrifo eich tâl rydym yn edrych ar eich incwm wythnosol, treuliau a'ch cyfalaf (cynilion a buddsoddiadau).

*Noder*

*Mae polisi codi tâl Torfaen yn cynnwys sicrwydd y bydd pob person sy'n cael gofal cartref neu ofal dydd yn cael cymorth incwm sylfaenol neu hawl i gredyd pensiwn gwarantedig a 45% ar ôl talu unrhyw gostau.*

### 1. Cyfalaf

Mae cyfalaf yn cynnwys cynilion mewn cyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu, tystysgrifau cynilion cenedlaethol, bondiau, PEP, TESSA, ISA a chyfranddaliadau. Gallai fod yn eich enw chi yn unig neu ar y cyd.

Mae hefyd yn cynnwys eiddo neu dir yr ydych yn berchen arnynt, ar wahân i'ch cartref. Bydd gwerth cyfalaf neu eich budd ynddo, os ydych yn berchen arno ar y cyd, hefyd yn cael ei gynnwys fel ased cyfalaf.

**O dan £24,000**

Os asesir bod gan berson cyfalaf sydd o dan u ffigwr hwn caiff ei anwybyddu yn yr asesiad.

**Dros £24,000**

Codir tâl ar berson sydd â chyfalaf o £24,000 neu drosodd am y gwasanaeth, a hynny hyd at uchafswm o £100.

**Os bydd eich cyfalaf yn syrthio o dan £24,000**

Os bydd eich cyfalaf/cynilion yn syrthio o dan £24,000, yna dylech ddweud wrthym a llenwi ffurflen asesiad ariannol.

Sylwch os yw'r Cyngor yn ystyried bod person wedi gwaredu ar gyfalaf / cynilion yn fwriadol er mwyn bod yn gymwys i gael help tuag at gostau gofal cartref / dydd, yna byddant yn cael eu trin fel pe bai ganddynt y cyfalaf o hyd. Mae hyn yn golygu efallai na fyddant yn derbyn cymorth ariannol a bydd rhaid talu'r uchafswm o £100 yr wythnos.

### 2. Incwm

Mae hyn yn cynnwys yr holl arian yr ydych yn ei dderbyn yn rheolaidd, er enghraifft:

- Pensiwn Ymddeol y Wladwriaeth, pensiynau galwedigaethol / gwaith neu bensiwn personol
- Unrhyw fudd-daliadau'r wladwriaeth, er enghraifft Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Blwydd-daliadau
- Incwm o rent a dderbynnir o eiddo yr ydych yn berchen arno
- Taliadau cronfa ymddiriedolaeth

### 3. Treuliau a ganiateir/diystyrir

Ar ôl cyfrifo cyfanswm eich incwm wythnosol, mae rhai symiau yn cael eu diystyru. Dyma'r rhai pennaf:

- Enillion
- Credyd Treth Gwaith
- Lwfans Byw i'r Anabl – elfen symudedd
- Taliad Annibyniaeth Bersonol - elfen symudedd
- Budd-dal Plant
- Taliadau morgais, rhent neu dreth y cyngor nad ydych yn derbyn cymorth ar eu cyfer

- Pensiwn Rhyfel a Phensiwn Gweddw Rhyfel

## A ydy incwm a chyfalaf fy nghymar yn cael eu hystyried?

Pan fydd un ohonoch yn derbyn gwasanaeth gofal cartref neu ofal dydd, fel arfer fe gewch gynnig i dderbyn asesiad ar y cyd gyda'ch partner. Mae hyn yn golygu y byddwn yn ystyried cyfanswm yr incwm / gwariant / cyfalaf ar gyfer eich cartref. Yna byddwn yn cynnal asesiad sengl ac ar y cyd a byddwch yn talu'r isaf o'r ddau asesiad.

Os ydych chi a'ch cymar yn derbyn gwasanaeth byddwn yn ystyried cyfanswm yr incwm /gwariant / cyfalaf ar gyfer eich cartref. Yna, byddwn yn cynnal asesiad ar gyfer dau berson sengl, ac fel cwpl a byddwch yn talu'r isaf o'r ddau asesiad.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Byddwn yn cadarnhau yn ysgrifenedig yr hyn sydd rhaid i chi ei dalu, a darparu manylion llawn ynghylch sut a ble y gallwch dalu.

Os ydych yn llenwi ffurflen asesiad ariannol, byddwn hefyd yn cynnwys copi o gyfrifiad yr asesiad ariannol. Gwiriwch fanylion yr incwm a ddefnyddiwyd a rhowch wybod i ni os ydych yn meddwl eu bod yn anghywir.

## Sut ydw i'n talu'r costau sy'n ddyledus?

Gellir talu trwy nifer o wahanol ddulliau, gan gynnwys debyd uniongyrchol, arian parod, siec neu gerdyn debyd neu gredyd. Byddwn yn anfon manylion llawn atoch ynghylch sut a ble y gallwch dalu.

## Beth os wyf yn anghytuno â'r penderfyniad?

Gallwch ofyn am adolygiad os ydych yn meddwl ein bod wedi ei gyfrifo yn anghywir.

Dylech wneud hyn yn ysgrifenedig i'r Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau. Gweler y manylion cyswllt isod i gael y cyfeiriad.

Byddwn yn edrych ar yr asesiad ariannol ac os yw'n anghywir, byddwn yn ei ailasesu a rhoi cyngor i chi yn unol â hynny. Os na fyddwn yn newid ein penderfyniad byddwn yn rhoi esboniad manwl i chi.

Os ydych dal i fod yn anfodlon â chanlyniad yr adolygiad gallwch gwyno'n swyddogol i'r Cyngor. Gweler y daflen - Cwynion - Sut Ddweud Eich Dweud.

## Sut allaf wneud yn siŵr fy mod yn hawlio'r holl fudd-daliadau cywir?

Mae ein Gwasanaeth Cyngor ar Fudddaliadau ar gael (am ddim) ar gael i unrhyw un sy'n derbyn gwasanaethau cartref neu ofal dydd. Gallwn sicrhau eich bod yn cael yr holl fudd-daliadau a'r pensiynau y mae gennych hawl i'w derbyn os ydych yn ein caniatáu i wneud hynny.  Mewn rhai amgylchiadau, byddwch yn cael eich atgyfeirio'n awtomatig am Gyngor ar Fudddaliadau a byddant yn cysylltu â chi yn uniongyrchol.

Os oes angen i chi gysylltu â hwy, gwnewch hynny ar y rhif isod.

Bydd swyddog yn eich helpu i lenwi unrhyw ffurflenni cais ac yn dilyn y cais wedi hynny i sicrhau eich bod yn derbyn y swm cywir sydd gennych hawl iddo..

Gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Cyngor ar Fudd-daliadau ar 07980 682606 / 07957 910066 and 01495 742521.

Os yw eich amgylchiadau wedi newid, mae angen i chi ddweud wrth y Tîm Asesu Ariannol.

Mae newidiadau yn cynnwys:

- Cynnydd/gostyngiad yn eich incwm neu fudd-daliadau
- Os yw eich cyfalaf yn cynyddu i dros £24,000, neu
- Os ydych ar hyn o bryd yn talu'r costau uchaf oherwydd eich cyfalaf, a'i fod yn gostwng i dan £24,000

## Ein manylion cyswllt

Os oes angen mwy o help arnoch, cysylltwch â ni.

**Rhif ffôn**: 01495 742343

**E-bost:**
FinancialAssessments@torfaen.gov.uk;

**Ein Cyfeiriad**:
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Adran Refeniw a Budd-daliadau (Tîm Asesiadau Ariannol)
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl,
Torfaen
NP4 6YB

Mae'r daflen ffeithiau hon ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais. Cysylltwch â ni i drefnu hyn.